**ADRODDIAD AR GYFER Y CYD-BWYLLGOR**

**6 GORFFENNAF 2016**

**Adroddiad gan:** Cyfarwyddwr Arweiniol GwE/Cadeirydd y Bwrdd Rheoli & Rheolwr Gyfarwyddwr GwE
**Pwnc:** Adroddiad ar ansawdd y gwasanaethau gwella ysgolion a ddarperir gan Gonsortiwm Gogledd Cymru

## 1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Diweddaru aelodau'r Cyd Bwyllgor ar yr adroddiad ar ansawdd y gwasanaethau gwella ysgolion a ddarperir gan Gonsortiwm Gogledd Cymru.

## 2.0 Cefndir

2.1 Gofynnodd Llywodraeth Cymru i Estyn adrodd ar y cynnydd sy'n cael ei wneud yn genedlaethol gan gonsortia o ran gwella ysgolion. Cyhoeddwyd adroddiad Estyn ym Mehefin 2015. Er ei fod yn cyfeirio at gonsortia unigol lle bo'n berthnasol, adroddiad ar gynnydd cenedlaethol oedd yr adroddiad yn bennaf. Gofynnodd Archwilydd Cyffredinol Cymru i Swyddfa Archwilio Cymru adrodd ar gynnydd ar y consortia hefyd, a chyhoeddwyd adroddiad ar wahân ar y pryd. Bu Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru yn gweithio gyda'i gilydd yn agos wrth lunio eu hadroddiadau.

2.2 Yna gofynnodd Llywodraeth Cymru i Estyn arolygu ac adrodd ar bob consortiwm yn unigol yn dilyn eu hadroddiad, gydag amserlen i gwblhau hyn cyn 31 Gorffennaf 2016.

2.3 Mae'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio Rhanbarthol a'r arweiniad atodol yn nodi

disgwyliadau'r llywodraeth ynglŷn â rôl a chyfrifoldebau consortia a'r berthynas sydd ganddynt ag awdurdodau lleol. Mae'r holl gyfrifoldebau statudol am addysg yn aros gydag awdurdodau lleol. Mae dull Estyn o arolygu consortia wedi'i seilio ar yr agweddau perthnasol ar y Fframwaith Arolygu Cyffredin.

**3.0 Ystyriaethau**

3.1 Cynhaliwyd Arolygiad Rhanbarthol Estyn yn ystod y bythefnos oedd yn dechrau ar 18 Ebrill 2016.

3.2 Ar ddiwedd y rhan ar y safle o'r arolygiad ar ddiwedd wythnos 2, bydd yr arolygydd cofnodol a nifer fach o'r tîm yn rhoi adborth llafar i'r consortiwm.

3.3 Yn dilyn yr adborth ffurfiol a dderbyniwyd ar ddiwedd pythefnos y broses arolygu, cynhaliwyd trafodaethau ymysg y gwahanol Fyrddau (Bwrdd Arweinyddiaeth Gogledd Cymru, Bwrdd Rheoli a Bwrdd Ymgynghorol GwE) ac mae gweithgareddau eisoes wedi dechrau er mwyn ymateb i'r canfyddiadau a'r argymhellion drafft a drafodwyd. Mae Cynllun Gweithredu Ôl Arolwg yn y broses o gael ei baratoi a bwriadir ei gyflwyno i'r Cyd Bwyllgor yn eu cyfarfod fis Medi.

3.4 Bydd Estyn yn cyhoeddi'r adroddiad o fewn uchafswm o chwe wythnos i'r arolygiad - mae adroddiad GwE i'w cyhoeddi ar ddydd Iau, 30 Mehefin 2016.

3.5 Mae strwythur yr adroddiadau arolygu wedi'i seilio ar yr agweddau hynny ar Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn sy'n berthnasol i gonsortia rhanbarthol, y mae chwe dangosydd ansawdd yn ymdrin â nhw. Ni fydd Estyn yn llunio barnau cyffredinol ar berfformiad presennol a rhagolygon gwella, ac ni fydd Estyn yn llunio barnau cyffredinol ar gwestiynau allweddol chwaith. Bydd adroddiadau arolygu ar y ffurfiau canlynol:

**Cyd-destun**
**Crynodeb**

- Pa mor dda yw'r safonau?
- Pa mor dda yw'r cymorth ar gyfer gwasanaethau gwella ysgolion?
- Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

**Argymhellion**
**Prif ganfyddiadau**
Pa mor dda yw'r safonau?

Pa mor dda yw'r cymorth ar gyfer gwella ysgolion?
Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

- Arweinyddiaeth
- Gwella ansawdd
- Gweithio mewn partneriaeth
- Rheoli adnoddau

**Atodiadau**

- Data perfformiad allweddol
- Canlyniadau arolwg o ganfyddiad

3.6 Bydd pob consortiwm yn cael argymhellion yn eu hadroddiad yn cwmpasu'r prif feysydd i'w gwella. Ni fydd Estyn yn rhoi unrhyw gonsortia mewn categori gweithgarwch dilynol. Bydd Estyn yn mynd i'r afael â phob arolygiad consortiwm ar ôl tua 12 mis i adolygu'r cynnydd y maent yn ei wneud o ran mynd i'r afael â'r argymhellion hyn. Bydd yr adolygiad hwn yn golygu bod tîm bach, gan gynnwys Swyddfa Archwilio Cymru os yw'n briodol, yn ymweld am ddim mwy nag wythnos. Yn dilyn yr adolygiad, bydd y consortiwm yn cael llythyr gydag arfarniad o gynnydd hyd yn hyn ar gyfer pob argymhelliad, ac os yw'n berthnasol, rhagor o argymhellion neu argymhellion diwygiedig.

3.7 Pan fydd yr adroddiad wedi cael ei gyhoeddi, bydd yr arolygydd cofnodol neu gydlynydd rhanbarthol Estyn, pa un bynnag sydd ar gael, yn trefnu cyfarfod â grŵp cynrychioliadol o bwyllgorau craffu o'r awdurdodau lleol perthnasol i drafod yr adroddiad. Os oes gan y rhanbarth drefniant craffu ffurfiol ar y cyd, yna bydd Estyn yn gweithio o fewn y broses hon os oes modd. Os yw cynghorau unigol yn gofyn am hynny, ac yn amodol ar argaeledd, bydd yr arolygydd cofnodol neu'r cydlynydd rhanbarthol yn mynychu cyfarfod llawn y Cyngor i gyflwyno'r negeseuon allweddol a'r argymhellion o'r adroddiad. Oherwydd bydd testun yr adroddiad wedi cael ei gyhoeddi erbyn hyn, ni fydd hyn yn gyfle i ailagor trafodaethau blaenorol, ond bydd yn cynnig cyfle i esbonio ac amlygu canfyddiadau'r adroddiad.

3.8 Nid yw Estyn yn rhagweld unrhyw weithgarwch dilynol pellach gyda chonsortia ar ôl yr adolygiad cychwynnol. Bydd unrhyw feysydd i'w gwella sy'n weddill yn cael eu monitro trwy gydlynydd rhanbarthol Estyn a bydd hyn yn cael ei amlygu trwy arolygiadau awdurdodau lleol lle bo'n briodol.

3.9 Mae Estyn yn bwriadu dechrau cylch newydd o arolygiadau craidd o'r holl awdurdodau lleol o Fedi 2017 ar hyn o bryd, er bod hyn yn amodol ar newid yn dibynnu ar bolisi Llywodraeth Cymru.

Bydd y ffocws ar gyfer arolygiadau awdurdodau lleol o 2017 yn cynnwys gwasanaethau gwella ysgolion, a bydd yr arolygiadau hyn yn cwmpasu materion yn ymwneud â chonsortia.

**4.0 Argymhellion**

4.1 Gofynnir i'r Cyd Bwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad ac ystyried y Cynllun Gweithredu Ôl Arolwg yn eu cyfarfod fis Medi.

**5.0 Goblygiadau ariannol**

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

**6.0 Effaith o ran cydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw effaith newydd o ran cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn.

**7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran personél yn codi o'r adroddiad hwn.

**8.0 Atodiadau**

8.1 Adroddiad ar ansawdd y gwasanaethau gwella ysgolion a ddarperir gan Gonsortiwm Gogledd Cymru (i ddilyn)

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Y Swyddog Monitro:**

Mae'r adroddiad yn cyflwyno'r adroddiad yn sgil arolygiad diweddar Estyn ac yn adnabod llwybr priodol i sicrhau cymeradwyaeth y Cyd Bwyllgor i gytuno ar yr ymateb.

**Y Swyddog Cyllid Statudol:**

Trefnwyd cyfarfod rhwng arolygwyr Estyn / SAC a fy nghyd-swyddogion cyllid statudol o'r 6 Cyngor, trefnwyd cyfarfod arall gyda'r cyfrifwyr perthnasol, ac hefyd darparwyd gwybodaeth perthnasol i Estyn / SAC am gyllid a llywodraethu priodol. Er gwaethaf hynny, ni chefais weld fersiwn ddrafft o adroddiad arolygiad penodol Estyn / SAC ar GwE, na chyfle i roi sylwadau ar gywirdeb y cynnwys, cyn i'r fersiwn derfynol o'r adroddiad gael ei chyhoeddi. Yn anffodus, nid yw'n hysbys os bydd unrhyw ymhlygiadau ariannol yn deillio o argymhellion arolygwyr Estyn / SAC.